EEB 16
Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)
Elections and Elected Bodies (Wales) Bill
Ymateb gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Response from: Welsh Local Government Association

# Ymateb CLlLC

Dyddiad: 7 Tachwedd 2023

## Teitl: Ymateb CLlLC i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig

**Derbynyddion:** Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

**Awdur:** Paula Walters, Pennaeth Dros Dro Polisi Corfforaethol a Gwasanaethau
**Cyfeiriad e-bost:** paula.walters@wlga.gov.uk

**Amdanom Ni**

1. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yn aelodau cyswllt.

2. Mae CLlLC yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol, gydag arweinwyr pob awdurdod lleol yn penderfynu ar bolisi drwy'r Bwrdd Gweithredol a Chyngor ehangach CLlLC. Mae CLlLC hefyd yn penodi uwch aelodau fel Llefarwyr a Dirprwy Lefarwyr i roi arweinyddiaeth genedlaethol ar faterion polisi ar ran llywodraeth leol.

3. Mae CLlLC yn gweithio'n agos gydag ymgynghorwyr proffesiynol a chymdeithasau proffesiynol o lywodraeth leol ac mae'n cael cyngor ganddynt yn aml. Fodd bynnag, CLlLC yw'r corff sy'n cynrychioli llywodraeth leol ac yn darparu llais gwleidyddol cyfun i lywodraeth leol yng Nghymru.  Ein nod yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau cynghorau yng Nghymru.

4. Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy:

    a. Hyrwyddo swyddogaeth a statws cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
    b. Sicrhau cymaint o ddisgresiwn lleol â phosibl o ran deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
    c. Rhoi dadl dros gyllid hirdymor a chynaliadwy i gynghorau
    d. Hybu gwelliant dan arweiniad y sector
    e. Annog democratiaeth leol fywiog, gan hybu mwy o amrywiaeth
    f. Cefnogi cynghorau i reoli eu gweithlu'n effeithiol

## Cyflwyniad

Mae CLlLC yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a rhoi tystiolaeth ar lafar ar 22 Tachwedd 2023.

Mae ymateb CLlLC yn darparu sylwadau lefel uchel ar y penodau a'r themâu allweddol ac ar sawl diwygiad arfaethedig yn hytrach nag ymateb i bob maes yn ei dro. Mae ystyriaeth fanylach a mwy arbenigol o'r diwygiadau arfaethedig wedi'u cynnwys yng nghyflwyniadau swyddogion canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol awdurdodau lleol, gan gynnwys Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru.

Mae llywodraeth leol Cymru wedi ymrwymo i wella a diwygio'r broses etholiadol ac mae ganddi enw da am weithio'n adeiladol ac yn rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol. Felly mae yna lawer o bethau yn y Bil sy'n cael ei groesawu a'i gefnogi, ac mae nifer o'r diwygiadau arfaethedig wedi'u datblygu drwy ymgysylltu helaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gweinyddwyr etholiadol.

Mae gweinyddu a diwygio etholiadol yn gymhleth a heriol, ac yn anorfod fe geir cyfyngiadau capasiti, adnoddau a systematig. Un o'r heriau allweddol, sydd wedi'i amlygu mewn trafodaethau ac ymatebion gan awdurdodau lleol i'r Papur Gwyn blaenorol, yw'r cymhlethdod a'r risg gynyddol o ddryswch yn sgil cyfraith ac arferion etholiadol gwahanol yng Nghymru a'r DU.

Mae awdurdodau lleol yn ei gwneud yn glir y dylid osgoi etholiadau ar gadw ac a gadwyd yn ôl cyfunol, gan y byddai'r rhain yn achosi dryswch i bleidleiswyr o ystyried y gwahaniaeth cynyddol yn y gyfraith a'r arferion ar lefel Gymreig a'r DU. Byddent hefyd yn peri heriau logisteg ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a phleidiau gwleidyddol, gyda mwy o berygl o wallau o ganlyniad. Dylid osgoi'r risg o fethiant etholiadol ble bynnag y bo'n bosibl, ac felly dylid osgoi cynnal etholiadau cyfunol drwy gytundeb.

## Creu Bwrdd Rheoli Etholiadol i Gymru

Mae CLlLC yn cefnogi sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol statudol yn lle Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd Cydlynu Etholiadol yn 2017, ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru, CLlLC a Swyddogion Canlyniadau. Mae'r Bwrdd Cydlynu Etholiadol wedi helpu i gydlynu gwaith cynllunio a rheoli etholiadau yng Nghymru; wedi darparu barn ar y cynigion i ddiwygio etholiadol ac wedi darparu arweiniad a chefnogaeth i weinyddwyr etholiadol yng Nghymru. Mae'r Bwrdd Cydlynu Etholiadol yn wirfoddol ar hyn o bryd ac o ystyried graddfa'r diwygio etholiadol, mae llywodraeth leol yn cefnogi model statudol mwy sylweddol. Rydym yn cefnogi Bwrdd Rheoli Etholiadol a gynhelir gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac a fydd yn chwarae rôl allweddol i gefnogi'r trefniadau pontio.

### Cyflwyno cofrestru etholiadol heb wneud cais

Mae CLlLC yn cefnogi cofrestru awtomatig fel ffordd o symleiddio'r broses ar gyfer etholwyr ac i'r cyflwyniad gael ei lywio gan dreialu a dysgu o ymarfer. Bydd angen cyfathrebu'n glir iawn â'r cyhoedd fel eu bod yn deall y byddant yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyfer etholiadau Cymru (yn dilyn hysbysiad gan y Swyddog Canlyniadau a'u derbyn) ond ar gyfer etholiadau Senedd y DU bydd yn ofynnol iddynt ymgysylltu â'r broses gofrestru etholiadol unigol (Cofrestru Etholiadol Unigol). Dyna pam mae'n bwysig treialu a gwerthuso'r dull gweithredu newydd hwn a chynnwys negeseuon i'r cyhoedd.

### Mynediad a Chydraddoldeb

Mae'r Gymdeithas yn cefnogi sicrhau bod etholiadau a phrosesau etholiadol yn hygyrch i bobl anabl ac yn cefnogi'r model cymdeithasol o anabledd. Fodd bynnag, nodwn fod cyfyngiadau ar addasrwydd ac argaeledd offer cludadwy ar y farchnad ar hyn o bryd ac mae gan lawer o orsafoedd pleidleisio gyfyngiadau gofodol. Bydd gofyn buddsoddi er mwyn darparu'n effeithiol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio ac mae CLlLC yn ymroddedig i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a phartneriaid eraill yn y maes hwn. Rydym yn croesawu'r cynigion bod y Comisiwn Etholiadol yn rhoi canllawiau i Swyddogion Canlyniadau ar ddarparu offer a chymhorthion i'w gwneud yn haws i bobl anabl bleidleisio a hefyd i adrodd ar hygyrchedd etholiadau i bleidleiswyr anabl yn y Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae CLlLC yn parhau i gefnogi'r egwyddor mewn perthynas â'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru, fel modd o gefnogi ymgeiswyr, er mwyn hyrwyddo amrywiaeth yn y cyfranogiad Rydym hefyd yn cytuno â'r cynnig i greu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith gyda'r nod o wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol gyda'r bwriad o deilwra'r dulliau gweithredu ar gyfer gwahanol nodweddion gwarchodedig fel y bo'n briodol. Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig (sy'n gynwysedig ym mharagraff 3.81 o'r Memorandwm Esboniadol) yn darparu pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer cynlluniau'r dyfodol ac ar gyfer ei ymestyn i gefnogi amrywiaeth fwy eang yn y Senedd a llywodraeth leol..

### Arolwg Ymgeiswyr

Mae CLlLC yn cytuno â'r cynigion i gael mwy o hyblygrwydd i ddatblygu'r arolwg ar y cyd â phartneriaid allweddol gan gynnwys cynrychiolwyr cydraddoldeb, a chael cyfres o gwestiynau craidd i ymgeiswyr ledled Cymru. Mae cysondeb data yn allweddol i archwilio tueddiadau dros amser, gan nodi gwelliannau o ran casglu data a'r gallu i rannu arferion o ran 'beth sy'n gweithio'. Croesawir hyblygrwydd i awdurdodau lleol ychwanegu cwestiynau er mwyn adlewyrchu materion lleol hefyd.

## Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr

Mae CLlLC yn cefnogi barn Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn y maes hwn o ran cyflwyno tystiolaeth, sy'n cynnwys safbwyntiau Swyddogion Canlyniadau awdurdodau lleol a gweinyddwyr etholiadol. Ni phrofwyd bod angen platfform digidol neu borth i uwchlwytho datganiadau ymgeiswyr ar gyfer etholiadau lleol.Mae ymgeiswyr, a'u pleidiau gwleidyddol os oes ganddynt un, yn dod yn fwyfwy effeithiol yn hyrwyddo eu hymgyrchoedd yn lleol, yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n gweld cynnydd yn nifer y cyhoedd sy'n ymgymryd â nhw. Mae CLlLC a'r gweinyddwyr etholiadol wedi mynegi pryderon yn barod ynghylch y diwygiadau arfaethedig hyn, gan y byddai hyn yn dasg sylweddol a chymhleth ac yn risgio honiadau o duedd wleidyddol os yw datganiadau yn cael eu hadolygu a'u golygu cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Nodir bwriad y polisi i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru *"… i roi trefniadau mewn lle ar gyfer platfform gwybodaeth pleidleiswyr ar-lein"*. Os cyflwynir hyn, dylai gael ei ariannu a'i gydlynu'n genedlaethol o ystyried nifer yr ymgeiswyr sy'n rhan o etholiadau lleol ar draws Cymru. Dylai bod ymgeiswyr yn gyfrifol am uwchlwytho eu datganiadau eu hunain ac ni ddylai unrhyw reolaeth olygyddol, sydd ynddo'i hun yn her logistaidd, fod yn gyfrifoldeb ar Swyddogion Canlyniadau gan y byddai hynny yn achosi gwrthdaro rhwng buddiannau gweinyddu etholiad a rhywfaint o awdurdod dros gynnwys deunyddiau ymgyrchu.

## Cyllid Ymgyrchu

Mae CLlLC yn cefnogi'r bwriad i wneud newidiadau i reolau cyllido ymgyrchu ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol, fel eu bod yn cyd-fynd â'r newidiadau a wnaethpwyd i etholiadau'r DU yn 2022. Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi ymdrechion i leihau'r gwahaniaeth rhwng etholiadau ar gadw ac etholiadau a gadwyd yn ôl.

## Trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol

Mae CLlLC yn adleisio barn Bwrdd Cydlynu Etholiadau Cymru ac mae'n cefnogi'r prif gynigion ar adolygiadau o ffiniau llywodraeth leol ac rydym hefyd yn croesawu'r darpariaethau a osodwyd ym mharagraff 3.102 o'r Memorandwm Esboniadol. Yn ein hymateb i'r Papur Gwyn, fe ddywedom y dylid cynnal y rhaglen 10 mlynedd o adolygiadau ond rydym yn cefnogi'r penderfyniad i'r Comisiwn gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn cyfnod o 12 mlynedd ac yn yr un modd, i awdurdodau lleol adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned bob 12 mlynedd.

## Diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Yn ein hymateb i'r Papur Gwyn, dangosodd CLlLC ei gefnogaeth i'r cynnig i ddiddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a throsglwyddo'r swyddogaethau i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, nid

yw Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol o'r farn hon ac mae'n gwrthwynebu diddymu'r Panel ac mae'n teimlo bod pâr annibynnol o lygaid i adolygu'r tâl arfaethedig yn bwysig er mwyn cynnal cysondeb lefelau tâl y Prif Weithredwr ar draws llywodraeth leol.

Mae'r grwpiau gwleidyddol eraill yn CLlLC (Llafur, Plaid Cymru a Grwpiau Annibynnol) yn parhau i fod o'r farn ei bod yn hollbwysig bod y corff sy'n pennu cyflogau a chydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr yn aros yn annibynnol ac nad yw'n rhan o swyddogaeth y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol. Maent yn cefnogi diddymu'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gan fod CLlLC wedi dadlau dros hyn ers amser maith oherwydd y dylid ymddiried yn yr awdurdodau lleol, fel cyflogwyr, i bennu eu strwythurau cyflogau eu hunain dan eu trefniadau llywodraethu eu hunain

**Taliadau Adsefydlu**

Mae CLlLC hefyd yn cefnogi cyflwyno 'taliadau adsefydlu' i gynghorwyr a all roi'r gorau i fod yn aelod o awdurdod lleol ac sy'n amodol ar y meini prawf i'w pennu gan y Comisiwn. Mae'r cynnig hwn yn cael ei groesawu ac mae CLlLC wedi gwneud achos ar gyfer 'taliadau parasiwt' dros y blynyddoedd diwethaf. Cynghorwyr yw'r unig swyddi cyhoeddus â thâl sydd heb amddiffyniad ariannol a heb hawl i daliad 'diswyddo' os ydynt yn colli eu swydd mewn etholiad. Mae Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Senedd y DU yn derbyn grant adsefydlu ac mae taliadau diswyddo hefyd yn hawl wedi'i diogelu i weithwyr y sector cyhoeddus. Yn benodol, mae uwch gynghorwyr yn dueddol o fod yn llawn amser ac yn aml yn gorfod rhoi'r gorau i'w gyrfa i ganolbwyntio ar eu rôl fel cynghorydd ac mae gan lawer ohonynt deulu yn ogystal ag ymrwymiadau ariannol eraill; mae'r risg personol o golled cyflog sydyn ac arwyddocaol yn anghyson ac yn annheg o gymharu â swyddi cyhoeddus eraill. Mae hefyd yn anghymhelliad i bobl amrywiol sydd â gyrfaoedd neu gyfrifoldebau teuluol ystyried derbyn y rolau uchaf mewn llywodraeth leol.

**Anghymhwyso**

Mae CLlLC yn cefnogi cysondeb yn y trefniadau anghymhwyso ar gyfer etholiadau'r Senedd, cynghorwyr cymuned a thref a phrif gynghorwyr (h.y., sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn cydymffurfio â'r rheolau presennol ar gyfer prif gynghorau). Rydym hefyd yn cefnogi'r cynnig i ddiddymu'r 'cyfnod gras' yn dilyn ethol cynghorydd fel Aelod o'r Senedd; dylai'r cynghorydd ymddiswyddo, gyda'r sedd yn dod yn wag yn syth ar ôl yr etholiad ac is-etholiad yn cael ei gynnal.

**Dylanwad Gormodol**

Mae CLlLC yn gefnogol i Lywodraeth Cymru geisio diweddaru a moderneiddio'r diffiniad o ddylanwad gormodol. Bydd yn darparu cysondeb ac yn lleihau gwahaniaethau â deddfwriaeth y DU tra hefyd yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu

newidiadau cymdeithasol ac yn mynd i'r afael â niwed ehangach i unigolion, yn hytrach na ffocws ar niwed corfforol.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Mae'r RIA yn rhoi amcangyfrif o'r costau uwch i awdurdodau lleol yn sgil y newidiadau arfaethedig i weinyddiaeth etholiadol. Mae risg bob amser gyda chynigion deddfwriaethol newydd y gallai fod costau nas rhagwelwyd a ddaw i'r amlwg yn ddiweddarach yn y cam gweithredu. Rydym yn dadlau y dylai'r holl newidiadau a gofynion newydd ar awdurdodau lleol gael eu hariannu'n llawn.